UK Government

Yn y llythyr rydych wedi'i gael gan Ofgem, fe welwch Rif Cyfeirnod Mesur Unigryw ar gyfer eich cartref. Dim ond partïon dilys fel TrustMark fydd gan fynediad i'r rhif hwn. Os bydd rhywun yn cysylltu â chi ynglŷn ag archwiliad ac yn methu â rhoi'r Rhif Cyfeirnod Mesur Unigryw hwn i chi, peidiwch â rhannu unrhyw fanylion personol â nhw na gadael iddyn nhw ddod i mewn i'ch cartref.

## I drefnu archwiliad

- Ffoniwch **0333 555 1234 – Opsiwn 1** (ar gael rhwng **9.00am a 7.00pm** o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng **9.00am ac 1.00pm** ar ddydd Sadwrn, ac eithrio gwyliau banc)
- Anfonwch e-bost atom: **onsitebookings@trustmark.org.uk**

TRUSTMARK
Government Endorsed Quality

UK Government

# A oes gwaith inswleiddio wedi cael ei wneud yn eich cartref fel rhan o gynllun gan y Llywodraeth?

**Gweithredwch nawr os oes gwaith Inswleiddio Waliau Allanol wedi cael ei wneud yn eich cartref o dan gynlluniau ECO4 neu GBIS**



**Bydd TrustMark, sef Cynllun Ansawdd sy'n cael ei gymeradwyo gan y Llywodraeth, yn trefnu archwiliad am ddim o'ch cartref. Bydd unrhyw broblemau sy'n cael eu darganfod yn cael eu trwsio gan y gosodwr heb unrhyw gost i chi.**

**Ffoniwch: 0333 555 1234 – Opsiwn 1**

TRUSTMARK
Government Endorsed Quality

## Pam y dylech chi gysylltu?

Dylech chi gysylltu â ni os oes gwaith inswleiddio waliau allanol wedi cael ei wneud yn eich cartref o dan un o gynlluniau Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) cyfredol y Llywodraeth: ECO4 neu Gynllun Inswleiddio Prydain Fawr (GBIS).

Mae problemau wedi cael eu canfod gydag ansawdd y math hwn o inswleiddio yn y rhan fwyaf o gartrefi. Mewn ymateb, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi archwiliadau am ddim i sicrhau bod cartrefi'n ddiogel.

Ni fydd modd gweld pob problem yn syth. Mae'n bwysig eich bod yn derbyn y cynnig hwn i gael archwiliad am ddim.

Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu harwain gan TrustMark, sef y Cynllun Ansawdd sy'n cael ei Gymeradwyo gan y Llywodraeth sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd gwelliannau effeithlonrwydd ynni o dan gynlluniau ECO4 a GBIS.



## Beth sydd angen i chi ei wneud a phryd?

Mae TrustMark yn gweithio ar gais y Llywodraeth i ddarparu archwiliadau am ddim i gartrefi lle mae gwaith inswleiddio waliau allanol wedi cael ei wneud.

I gael archwiliad am ddim, cysylltwch â TrustMark drwy ffonio: 0333 555 1234 – Opsiwn 1, neu anfon e-bost i onsitebookings@trustmark.org.uk.

**Ar ôl cysylltu â TrustMark, dyma'r camau nesaf:**

1. **Bydd TrustMark yn cysylltu â chi drwy e-bost, dros y ffôn, neu drwy'r post (yn dibynnu ar eich dewis) i gynnig archwiliad am ddim i chi o'ch cartref.**
2. **Os byddwch yn derbyn y cynnig i gael archwiliad, bydd gweithiwr proffesiynol cymwys o TrustMark yn archwilio'r gosodiad ac yn egluro'r canfyddiadau i chi.**
3. **Os bydd problemau'n cael eu canfod, bydd TrustMark yn trefnu iddynt gael eu cywiro heb unrhyw gost i chi. Byddwch yn cael gwybod pan fydd y gwaith wedi'i orffen.**

Bydd archwiliad yn canolbwyntio ar ddiogelwch a safonau technegol. Efallai na fydd yn cynnwys problemau a allai fod gennych gydag edrychiad y gwaith.

Mae'r Llywodraeth yn eich annog yn gryf i dderbyn y cynnig i gael archwiliad am ddim o'ch cartref. Hyd yn oed os nad oes problem i'w gweld ac nad oes gennych unrhyw bryderon ynghylch gwaith inswleiddio waliau allanol, rydym yn eich annog i gael archwiliad o'ch cartref beth bynnag.